# Deall profiadau o gredoau lleiafrifol ar lwyfannau cyfathrebu ar-lein

**Medi 2023**

**Colin Strong, Katy Owen a Jill Mansfield**

# Cynnwys

**Rhagair Ofcom** ..... 3
**Crynodeb o'r canfyddiadau** ..... 4
**Diweddglo Ofcom** ..... 8

Cyflawnwyd y gwaith hwn yn unol â gofynion safon ansawdd rygwladol ymchwil y farchnad, ISO 20252, ac â Thelerau ac Amodau Ipsos, y gellir dod o hyd iddynt yn https://ipsos.uk/terms

# Rhagair Ofcom

Mae'r adroddiad hwn yn brosiect ymchwil annibynnol i agweddau a phrofiadau pobl sydd â chredoau lleiafrifol mewn perthynas â diogelu iechyd, newid yn yr hinsawdd a'r gwrthdaro yn Rwsia / Wcráin. Mae'r term 'credoau lleiafrifol' yn cyfeirio at safbwyntiau nad ydynt yn cael eu rhannu'n eang gan boblogaeth gyffredinol y DU, ac mae'n cynnwys categori ehangach o gredoau na thermau mwy penodol eraill megis camwybodaeth neu dwyllwybodaeth. Mae'r ymchwil yn darparu dealltwriaeth fanwl o'r ffyrdd y mae'r credoau lleiafrifol hyn yn datblygu, yn lledaenu ac yn effeithio ar bobl sy'n eu dal, ac yn dangos pwysigrwydd gwybodaeth a sgiliau sylfaenol, yn ogystal ag ymddygiad sylfaenol, mewn ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

Fe wnaethom gomisiynu'r ymchwil hon i gynyddu ein dealltwriaeth ein hunain o sut a pham mae pobl yn datblygu credoau lleiafrifol mewn cyd-destun ar-lein, ac i rannu'r mewnwelediadau hyn yn ehangach. Roeddem hefyd am archwilio'r berthynas rhwng mathau o ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a sut mae credoau o'r fath yn cael eu ffurfio. Aethom ati i archwilio ymwybyddiaeth o'r cyfryngau dan arweiniad cyfranogwyr, a buom yn trafod sgiliau, gwybodaeth a mathau o ymddygiad wrth iddynt godi yn ystod yr ymchwil.

Yn ogystal â'n dyletswyddau statudol yn Neddf Cyfathrebu 2003 i hyrwyddo ac ymchwilio i ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, rydym ar fin derbyn cyfrifoldeb fel y rheoleiddiwr diogelwch ar-lein yn y DU. O dan y drefn newydd hon, bydd yn ofynnol i Ofcom sefydlu pwyllgor cynghori ar dwyllwybodaeth a chamwybodaeth, sy'n cynghori Ofcom ynghylch sut y dylai darparwyr ymdrin â thwyllwybodaeth a chamwybodaeth, ac ynghylch arfer pwerau newydd Ofcom ym maes tryloywder ac ymwybyddiaeth o'r cyfryngau mewn perthynas â chynnwys o'r fath. Yn ogystal, bydd ein dyletswyddau ychwanegol mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o'r cyfryngau o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn cynnwys cyfeiriadau at helpu'r cyhoedd i ddeall natur ac effaith twyllwybodaeth a chamwybodaeth.

*Efallai y bydd rhai o'r dyfyniadau a'r safbwyntiau a drafodir yn yr adroddiad hwn yn cael eu hystyried yn sarhaus yn nhyb rhai pobl. Safbwyntiau'r cyfranogwyr ac nid safbwyntiau Ipsos nac Ofcom yw unrhyw rai a rennir yn yr adroddiad. Pan fydd safbwyntiau a fynegir gan gyfranogwyr yn groes i dystiolaeth ddibynadwy ar fater penodol, nodir hyn yn y troednodiadau.*

Cyflawnwyd y gwaith hwn yn unol â gofynion safon ansawdd ryngwladol ymchwil y farchnad, ISO 20252, ac â Thelerau ac Amodau Ipsos, y gellir dod o hyd iddynt yn https://ipsos.uk/terms

# Crynodeb o'r canfyddiadau

Comisiynodd Ofcom Ipsos i archwilio rôl llwyfannau cyfathrebu ar-lein o ran sut mae credoau lleiafrifol yn cael eu ffurfio, eu cynnal a'u cyfathrebu, a'r rôl sy'n cael ei chwarae gan agweddau ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.[1] Roedd y prosiect hwn yn cynnwys 35 o gyfweliadau wyneb yn wyneb â phobl sydd â chredoau lleiafrifol ar un neu fwy o dri phwnc allweddol: newid yn yr hinsawdd, y gwrthdaro yn Rwsia / Wcráin a diogelu iechyd. Mae'r mewnwelediadau o'r prosiect wedi'u crynhoi isod.

Mae 'credoau lleiafrifol' yn cyfeirio at y safbwyntiau ar bynciau pwysig (yn yr adroddiad hwn, am y tri phwnc a restrir uchod) nad ydynt yn cael eu dal yn eang gan boblogaeth gyffredinol y DU.[2] Mae'r term hwn yn cynnwys categori ehangach o gredoau lleiafrifol na thermau mwy penodol eraill fel camwybodaeth/twyllwybodaeth, ac fe'i dewiswyd i alluogi darpar gyfranogwyr i deimlo'n fwy cyfforddus ynghylch nodi eu credoau eu hunain, yn hytrach na defnyddio termau eraill sy'n gysylltiedig â'r materion hyn, fel camwybodaeth/twyllwybodaeth. Am nad yw'r ymadrodd yn llunio barn am gredoau pobl, roedd yn galluogi darpar gyfranogwyr i nodi eu hunain fel rhai â chred leiafrifol mewn ffordd nad fyddai wedi bod yn bosibl gyda thermau eraill.

Roedd llawer iawn o wahaniaeth ar draws y cyfranogwyr yn yr astudiaeth hon. Adlewyrchwyd hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys i ba raddau roedd eu credoau yn fwy canolog neu'n ymylol i'w bywydau, y ffordd yr ymgysylltodd y cyfranogwyr â llwyfannau cyfathrebu ar-lein a ffynonellau newyddion traddodiadol, a'r pwysigrwydd a'r effeithiau canfyddedig a gafodd eu credoau lleiafrifol ar eu bywydau. Roedd y cyfranogwyr yn cynrychioli sbectrwm eang o agweddau, cymhellion ac ymddygiadau, ac ychydig, os unrhyw wahaniaethau neilltuol o gwbl a welwyd yn ôl nodweddion demograffig.

**Nodyn: Efallai bydd rhai o'r dyfyniadau yn yr adroddiad hwn yn cynrychioli safbwyntiau y gallai rhai pobl eu hystyried yn sarhaus. Safbwyntiau'r cyfranogwyr ac nid safbwyntiau Ipsos nac Ofcom yw unrhyw rai a rennir yn yr adroddiad hwn.**

## Hunan-ganfyddiad

Roedd cyfranogwyr yn yr ymchwil hon yn ymwybodol o ganfyddiad posibl y boblogaeth ehangach ohonynt oherwydd eu credoau lleiafrifol a phwysleisiodd llawer nad oeddent yn ystyried bod eu safbwyntiau'n eithafol. Cyfeiriwyd ganddynt at yr angen am wytnwch personol oherwydd bod ganddynt safbwyntiau a oedd yn groes i gredoau llawer yn y

[1] 'Llwyfannau cyfathrebu ar-lein' yw'r term cyffredinol a ddefnyddir gennym i drafod llwyfannau y gellir eu defnyddio i: anfon negeseuon, sgwrsio neu wneud galwadau llais neu fideo; gwylio/uwchlwytho cynnwys ar lwyfannau rhannu fideos; ar gyfer cyfryngau cymdeithasol; ar gyfer ffrydio byw neu i wylio/rhannu cynnwys

[2] Ar gyfer y prosiect hwn, gwnaethom ddefnyddio dau ddull i sgrinio cyfranogwyr i ganfod eu credoau lleiafrifol: yn gyntaf gwnaethom ofyn iddynt hunan-nodi pa mor debyg oedd eu credoau ar bob un o'r tri phwnc o gymharu â phobl eraill yn y DU; yn ail, gwnaethom ofyn iddynt nodi eu cytundeb gyda datganiad am y pwnc yr ystyriwyd ei fod yn ffeithiol yn seiliedig ar ffynonellau parchus fel y GIG, yr IPCC a'r Cenhedloedd Unedig. Am fwy o fanylion, gweler 'Sampl a recriwtio' yn yr adroddiad llawn.

Cyflawnwyd y gwaith hwn yn unol â gofynion safon ansawdd ryngwladol ymchwil y farchnad, ISO 20252, ac â Thelerau ac Amodau Ipsos, y gellir dod o hyd iddynt yn https://ipsos.uk/terms

boblogaeth. Roedd rhai yn ystyried bod ganddynt statws ymylol a oedd yn destun pryder a dicter hyd yn oed, gan arwain at ymdeimlad ynddynt o fod yn israddol yn y ddadl.

Er bod rhai cyfranogwyr yn gadarn eu barn, roedd yn llawer mwy cyffredin i'r cyfranogwyr beidio ag ystyried bod eu safbwyntiau'n arbennig o glir neu'n ddi-syfl. Yn aml, roedd gan gyfranogwyr safbwynt cwestiynu a oedd yn herio naratif yr oeddent yn teimlo ei fod yn naratif prif ffrwd ond nid oedd hynny o reidrwydd yn golygu eu bod yn cymryd safbwynt cadarn ar farn amgen.

# Taith credoau lleiafrifol

## Sbardunau a chymhelliant

Bu i ni ganfod nad oedd un ffordd unigol i gyfranogwyr gael eu cyflwyno i gredoau lleiafrifol a'u harddel yn ddyfnach. Nododd llawer o gyfranogwyr nad drwy lwyfannau cyfathrebu ar-lein oedd eu cyflwyniad cyntaf i gredoau lleiafrifol. Yn hytrach, roeddent yn aml yn cael eu cyflwyno i'r credoau hyn trwy bobl roeddent yn eu hadnabod mewn sefyllfaoedd wyneb yn wyneb. Canfuom fod llwyfannau cyfathrebu ar-lein yn aml yn cael eu defnyddio gan gyfranogwyr i gasglu rhagor o wybodaeth yn dilyn eu cyflwyniad i'r credoau hyn. Yn aml, anterth y pandemig COVID-19 oedd y cefndir i bobl ddechrau neu ddatblygu eu credoau lleiafrifol.

## Strategaethau rhannu

Gwnaeth cyfranogwyr benderfyniadau cynnil a chywrain ynghylch cynnwys, cynulleidfa ac effeithiau posibl wrth ystyried sut a gyda phwy roeddent yn rhannu gwybodaeth. Llawer o'r amser, dim ond gyda ffrindiau a theulu y byddai cyfranogwyr yn rhannu gwybodaeth ar lwyfannau cyfathrebu ar-lein, yn hytrach na gyda chynulleidfa gyhoeddus ehangach. Roedd hyn oherwydd pryderon am adlach bosibl a phryderon am sensitifrwydd posibl derbynwyr. Soniwyd yn aml am hiwmor fel ffactor a fyddai'n cynyddu'r tebygolrwydd o rannu cynnwys.

## Effeithiau

Roedd rhai effeithiau negyddol i'w gweld ar ôl rhannu credoau lleiafrifol, ar ffurf heriau i berthnasau rhwng parau a phartneriaid ond hefyd ymysg teulu, ffrindiau a chydweithwyr yn y gweithle yn ehangach. Fodd bynnag, soniodd cyfranogwyr am y rhain yn llai aml ac roeddent o'r farn eu bod yn llai pwysig na budd canfyddedig yr ymdeimlad o rymuso a mewnwelediad a gafwyd yn sgil rhannu'r gred.

# Ffactorau sy'n cyfrannu at y defnydd o llwyfannau cyfathrebu ar-lein

Roedd yna awydd ymhlith cyfranogwyr i drafod a siarad am y credoau lleiafrifol roedd ganddynt ar lwyfannau cyfathrebu ar-lein, ond hefyd ymdeimlad eu bod am gymryd rhan weithredol yn y ffordd roeddent yn dysgu am y byd ac yn ei ddeall. Roedd hyn yn aml yn cynnwys chwilio am y cyfle i gysylltu â phobl eraill, boed hynny ar-lein neu yn y 'byd go iawn'. Cyfeiriodd cyfranogwyr yn aml at lwyfannau cyfathrebu ar-lein fel rhan o'r broses o archwilio a datblygu eu dealltwriaeth o gredoau lleiafrifol.

Cyflawnwyd y gwaith hwn yn unol â gofynion safon ansawdd ryngwladol ymchwil y farchnad, ISO 20252, ac â Thelerau ac Amodau Ipsos, y gellir dod o hyd iddynt yn https://ipsos.uk/terms

Safbwynt cyffredin ymhlith cyfranogwyr oedd nad yw ffynonellau cyfryngau traddodiadol yn adlewyrchu ystod o safbwyntiau ar amrywiaeth o bynciau yn gywir a'u bod yn ddetholus ac yn unochrog o ran y dystiolaeth maent yn ei chyflwyno ar fater penodol.[3] Roedd hyn yn gyfiawnhad cyffredin dros ddefnyddio llwyfannau cyfathrebu ar-lein i wrthbwyso'r diffygion canfyddedig hyn o ran cyfryngau traddodiadol ac, yn y broses, archwilio credoau lleiafrifol.

Myfyriodd cyfranogwyr am y ffordd mae seilwaith llwyfannau cyfathrebu ar-lein wedi dylanwadu ar eu rhyngweithiadau. Un o'r themâu a nodwyd oedd bod cyfranogwyr yn symud o lwyfannau cyfathrebu ar-lein cyhoeddus i grwpiau negesu preifat: roeddent o'r farn bod y llwyfannau agored yn cau eu trafodaethau i lawr fwyfwy ynghylch eu credoau lleiafrifol.

Siaradodd cyfranogwyr hefyd am rôl llwyfannau cyfathrebu ar-lein wrth drafod eu credoau lleiafrifol: roeddent weithiau'n poeni y gallai eu postiadau ysgogi ymatebion negyddol ac, o'r herwydd, roeddent yn tueddu i fod yn ofalus ynghylch postio.

## Ymwybyddiaeth o'r cyfryngau

Ffocws allweddol yn yr ymchwil oedd y ffordd roedd cyfranogwyr yn asesu ac archwilio gwybodaeth, a sut y dylanwadodd hyn ar gasgliadau am eu credoau lleiafrifol. Nid asesu ein cyfranogwyr ynghylch graddau eu hymwybyddiaeth o'r cyfryngau oedd ein bwriad, ond archwilio a oeddent yn defnyddio sgiliau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a sut. Er na wnaethom ofyn am unrhyw sgìl unigol yn benodol, disgrifiodd cyfranogwyr eu bod yn defnyddio un neu fwy o'r dulliau canlynol i asesu ac archwilio gwybodaeth, a oedd yn datgelu elfennau o ddealltwriaeth gritigol mewn rhai meysydd:

- **Llywio yn y cyfryngau:** Yn aml, roedd cyfranogwyr yn ymddangos braidd yn wyliadwrus a gochelgar ynghylch cymhlethdod yr amgylchedd gwybodaeth a phwysleisiwyd pwysigrwydd ei reoli'n ofalus.

- **Beirniadu tystiolaeth:** Cwestiynodd sawl cyfranogwr ar ba sail yr ystyriwyd bod tystiolaeth yn ddilys. Roedd hyn yn cynnwys herio safbwyntiau confensiynol, gan ddadlau nad yw tystiolaeth mor syml ag yr honnir yn aml.

- **Dadansoddiad critigol:** Roedd cyfranogwyr yn aml yn cymryd gofal i asesu gwybodaeth yn seiliedig ar ffactorau, gan gynnwys pa lwyfan neu wefan roeddent wedi dod o hyd iddi, pwy oedd yn cyfathrebu arni, a naws ac arddull y cynnwys.

Fodd bynnag, nid oedd y defnydd o ddadansoddiad critigol bob amser yn gyson gan fod cyfranogwyr hefyd yn defnyddio arferion neu 'gwtogiad meddyliol' a allai danseilio'r sgiliau hyn o ran y cynnwys roeddent yn ei weld ar lwyfannau cyfathrebu ar-lein:

---

[3] Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r termau ffynonellau cyfryngau traddodiadol a ffynonellau newyddion traddodiadol i gyfeirio at gyfryngau print, darlledu a digidol a ffynonellau newyddion sefydledig, sef y sefydliadau cyfryngau torfol hynny yn bennaf a oedd yn dominyddu cyn yr oes wybodaeth (e.e. y BBC, Sky, papurau newydd, radio masnachol ac ati). Nid oes diffiniad a gytunir gan bawb am ffynonellau cyfryngau traddodiadol ac weithiau gelwir y rhain hefyd yn gyfryngau etifeddol, hen gyfryngau neu gyfryngau prif ffrwd, yn hytrach na 'chyfryngau newydd' sy'n tueddu i gynnwys llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, ymhlith technolegau eraill. Lle mae dyfyniadau cyfranogwyr yn sôn am 'gyfryngau prif ffrwd' neu derminoleg arall, mae eu dewis o eiriau wedi'i gadw.

- **Argaeledd neu absenoldeb tystiolaeth amgen:** Roedd cyfranogwyr yn ystyried cywirdeb gwahanol fathau o dystiolaeth i gefnogi casgliad. Er enghraifft, ystyriwyd bod tystiolaeth llygad-dyst a lluniau fideo sy'n ymddangos ar lwyfannau cyfathrebu ar-lein yn aml yn cynnig mewnwelediadau grymus nad oeddent ar gael mor rhwydd mewn mannau eraill.
- **Cyfrannu torfol:** Disgrifiodd cyfranogwyr eu bod yn dibynnu ar ddefnyddwyr eraill (megis pori drwy sylwadau) i helpu i asesu dilysrwydd gwybodaeth a welwyd ar-lein.

Cyflawnwyd y gwaith hwn yn unol â gofynion safon ansawdd ryngwladol ymchwil y farchnad, ISO 20252, ac â Thelerau ac Amodau Ipsos, y gellir dod o hyd iddynt yn https://ipsos.uk/terms

# Diweddglo Ofcom

Mae'r ymchwil hon yn rhoi cipolwg ar sut mae credoau lleiafrifol mewn tri maes pwysig yn cael eu ffurfio a'u lledaenu. Mae hefyd yn ystyried effaith meddu ar y credoau hynny, ac yn dangos y ffordd mae gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn cydblethu a phwysigrwydd hynny.

Mae'n ddiddorol mai'r man cychwyn ar gyfer credoau lleiafrifol yn aml oedd sgyrsiau neu ddigwyddiadau a ddigwyddodd y tu allan i lwyfannau cyfathrebu ar-lein. Roedd yr awydd i drafod a siarad yn aml yn denu cyfranogwyr ar-lein, gyda symud o lwyfannau cyfathrebu ar-lein cyhoeddus i grwpiau negesu preifat yn cael ei ystyried yn ffordd o ymochel rhag unrhyw adlach bosibl. Nododd y cyfranogwyr eu bod yn ofalus mewn perthynas â phostio ar lwyfannau cyfathrebu ar-lein, gyda hiwmor yn cael ei ystyried yn ffordd 'fwy derbyniol' o rannu cynnwys.

Dechreuodd ein dull gweithredu gyda phobl a'u profiadau, gan ein galluogi i archwilio i ba raddau roedd sgiliau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn cael eu defnyddio. Yr hyn sy'n amlwg yn deillio o'r ymchwil hon yw'r gyd-ddibyniaeth rhwng ymddygiadau, sgiliau a gwybodaeth ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, ac mai dim ond pan fydd y tri yn bresennol ac yn cael eu cymhwyso i wahanol fathau o ffynonellau gwybodaeth y gallwn ystyried bod unigolyn yn arddangos ymwybyddiaeth lawn o'r cyfryngau.

Ymhlith y mathau o ymddygiad a welwyd yn yr ymchwil hon roedd y defnydd o ystod eang o ffynonellau cyfryngau, meithrin dull critigol ac asesu ffynonellau. Gellid disgrifio'r mathau hyn o ymddygiad fel rhai sy'n dangos ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Fodd bynnag, ni wnaeth y cyfranogwyr hyn gymhwyso'r mathau hyn o ymddygiad yn gyson - er enghraifft, efallai y byddent yn asesu dibynadwyedd rhai ffynonellau trwy wirio'r adran sylwadau, neu drwy ddibynnu ar eu greddf heb oedi i ystyried eu rhagfarnau eu hunain.

Gall mathau o ymddygiad o'r fath fod o gymorth fel cydrannau mewn cyfres ehangach o fesurau i benderfynu a yw rhywbeth yn ddibynadwy, ond o'u defnyddio ar wahân neu o'u rhagosod uwchlaw mesurau eraill, maent yn annhebygol o fod yn ddigonol.  Yn yr un modd, nid yw'r gred bod tystiolaeth llygad-dyst a lluniau fideo yn wir drwy ddiffiniad o'u cymharu â dadansoddiad mwy dadansoddol neu ddadansoddiad adroddedig, yn dangos persbectif o ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, er bod rhai cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn bod yn dangos ymwybyddiaeth gritigol trwy agweddau o'r fath.

At ei gilydd, nodwn fod dealltwriaeth anwastad ynghylch cymhellion actorion ar-lein a sbardunau masnachol llwyfannau, a gwybodaeth lai amlwg am y mecanweithiau o ran sut mae cyfryngau newyddion mwy prif ffrwd yn gweithredu.

Mae'r ymchwil yn ein hatgoffa o gymhlethdod ffurfio safbwyntiau, a sut mae hyn yn datblygu o ganlyniad i ystod o ffactorau. Mae'n ein hatgoffa o'r angen am ddealltwriaeth gyfannol a chynnil o ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

Am hynny, mae'r ymchwil yn ategu ein gweithgareddau ehangach presennol, Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau. Mae ein Cynllun Blynyddol Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau 2023-24 yn canolbwyntio ar yr elfennau 'dim ond Ofcom sy'n gallu eu gwneud' o ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn y DU – fel ein cyfraniad ni at fynd i'r afael â heriau yn y DU o amgylch ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar-lein. I ddysgu mwy am ein rhaglen ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, gan gynnwys ein blaenoriaethau ymchwil, ymunwch â'r rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau.

Cyflawnwyd y gwaith hwn yn unol â gofynion safon ansawdd ryngwladol ymchwil y farchnad, ISO 20252, ac â Thelerau ac Amodau Ipsos, y gellir dod o hyd iddynt yn https://ipsos.uk/terms